


Beibl i Blant yn cyflwyno

Daniel yn ffau'r llewod



Awdur: Edward Hughes
Lluniau gan: Jonathan Hay

Cyfieithydd: Catrin Roberts
addaswyd gan: Mary-Anne S.

Stori 34 o 60

www.M1914.org


Bible for Children, PO Box 3, Winnipeg, MB R3C 2G1 Canada

Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon, ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.

Welsh


Dareius oedd brenin newydd Babilon. Roedd e'n ddyn clyfar. Dewisodd cant a dau ddeg o bobl orau'r deyrnas i'w helpu i reoli. Yna dewisodd tri i fod yn

ben arnyn nhw.
Roedd Daniel yn un o'r tri chomisiynydd hynny.




1

Roedd y Brenin Dareius â meddwl mawr o Daniel. Fe wnaeth e ystyried rhoi'r deyrnas gyfan o dan ei ofal.



2

Roedd yr arweinwyr eraill yn genfigennus, ac roedden nhw eisiau ffeindio bai ar Daniel er mwyn cael dweud hynny wrth y brenin.




Ond roedden nhw'n methu dod o hyd i unrhyw sgandal am Daniel. Roedd bob amser yn ffyddlon i'r brenin. Roedd hefyd yn ofalus ac yn alluog, ac yn gwneud popeth hyd eithaf ei allu.



Roedd yr arweinwyr cenfigennus yn gwybod am un ffordd yn unig o osod trap i Daniel. Roedden nhw'n gwybod na fyddai dim byd yn stopio fe addoli Duw Israel.




Dyma elynion Daniel yn meddwl am gynllun. Fe wnaethon nhw wneud cyfraith newydd i'r brenin ei harwyddo. Roedd y gyfraith yn gorchymyn fod pawb i weddio ar y brenin - a neb arall. Byddai unrhyw un oedd yn torri'r gyfraith yn cael ei daflu i ffau'r llewod.




Dyma'r brenin Dareius yn arwyddo'r gyfraith newydd.




Doedd dim ots gan Daniel am y gyfraith newydd. Fe wnaeth beth oedd e wastad yn ei wneud. Aeth ar ei liniau o flaen ei ffenestr agored dair gwaith bob dydd i weddio ar Dduw.





Rhuthrodd yr arweinwyr cenfigennus i ddweud hyn wrth y brenin. Doedd dim dewis gan y brenin Dareius - roedd yn rhaid iddo arestio Daniel. Roedd yn rhaid ufuddhau i'r gyfraith.

9



Roedd yn rhaid i Daniel gael ei ladd. Er i'r brenin geisio meddwl am ffordd i'w helpu, doedd hi ddim yn bosibl newid y gyfraith.


10

Cafodd Daniel ei ddedfrydu i gael ei daflu i ffau'r llewod. Cyn i hyn ddigwydd, dywedodd y brenin Dareius wrtho, "Bydd dy Dduw, yr un rwyf ti'n ei addoli mor ffyddlon, yn dy achub di!"



11

Methodd y brenin a chysgu'r noson honno. Yn gynnar iawn y bore wedyn, rhuthrodd y brenin at ffau'r llewod.



12

Dyma'r brenin yn galw, "Daniel, Gwas y Duw byw. Ydy'r Duw wyt ti'n ei addoli mor ffyddlon wedi gallu dy achub di rhag y llewod?" Oedd e'n disgwyl ateb? Wyddon ni ddim. Ond dyma Daniel yn ateb!




13

Dywedodd Daniel, "O frenin! Mae fy Nuw wedi anfon ei angel i gau cegau'r llewod, a dŷn nhw ddim wedi mrifo i o gwbl! Wnes i ddim drwg i chi, O frenin!"



14

Roedd y brenin wrth ei fodd! Dyma fe'n gorchymyn codi Daniel allan o'r ffau.




15

Roedd y brenin yn gwybod fod Duw wedi achub Daniel, a bod gelynyon Daniel yn elynion i Dduw. Dyma'r brenin yn gorchymyn fod y dynion oedd wedi ei dwyllo i arwyddo'r gyfraith ddrwg i'w taflu i ffau'r llewod. A dyma'r llewod yn eu bwyta.



16

Roedd y Brenin Darius am i'r byd wybod fod Duw'r Nefoedd wedi amddiffyn Daniel, ei was ffyddlon. Ysgrifennodd lythyr yn gorchymyn i bawb addoli'r Duw byw. Ac fe gafodd Daniel fod yn arweinydd unwaith eto.



17

Daniel yn ffau'r llewod

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

Daniel 6

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130



Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Y gosb am bechod ydy marwolaeth.

Mae Duw yn ein caru ni gymaint, fe wnaeth e anfon ei Fab, Iesu, i farw ar Groes. Fe wnaeth e gymryd ein cosb ni. **Daeth Iesu yn fyw eto** ac aeth yn ôl i'r Nefoedd! Nawr gall Duw faddau ein pechodau.

Os wyt ti am droi oddi wrth dy bechodau, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Dduw, rwy'n credu bod Iesu wedi marw drosaf fi a'i fod yn fyw eto.

Os gweli'n dda tyrd i mewn i'm mywyd a maddau fy mhechodau, er mwyn i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna cael bod gyda Thi am byth. Helpa fi i fyw fel plentyn i ti. Amen. Ioan 3:16

Cofia ddarllen y Beibl a siarad bob dydd gyda Duw!